Authenticity

Eluned sat in the reception room. She had gone there much earlier than usual to meet the client. She wondered about the consultation session with Janice the week before. She was quite uncomfortable about it really and had been thinking about what to do. The session didn't go that well to be honest, and Eluned doubted whether Janice would return or not? Things were quite embarrassing from the first moment when she greeted Janice.

Janice came in the week before looking quite nervous (nothing wrong about that). Eluned introduced herself to her and Janice mentioned – 'You come from north Wales....' Eluned didn't click at that point, but Janice further explained that she was from Swansea and that her Welsh was not as good as someone from north Wales. Janice noted that she did not use the correct Welsh words and that she spoke Wenglish; 'You won't understand me, and I won't understand you either'. Eluned was quite familiar with this view, but she didn't quite understand either – Eluned didn't have difficulties understanding Janice or was it vice versa?

Both entered the counselling room, and the consultation session began. Eluned asked Janice how she felt about having the session in Welsh and asked if her accent/understanding was going to be a barrier, as Janice's wellbeing was extremely important. Janice had originally asked specifically for a Welsh-speaking therapist, and Eluned noted at this point that they did not have another Welsh-speaking therapist in the practice. Janice started moving in her chair, looking quite embarrassed. Janice was not confident she said about speaking Welsh if they were not from the same area as her. Eluned was quite determined to persuade her that everything would be fine and that there were no problems understanding each other. Janice said very little after that, just giving short and purposeful answers.

Eluned felt quite embarrassed herself after this – had she hustled the point too much as SHE thought there was no problem? Why didn't she discuss how Janice felt about the accent etc.?

'Hello Eluned' says Janice – she was back....

Eisteddai Eluned yn yr ystafell dderbyn, roedd hi wedi mynd yno yn llawer cynt nag arfer i gwrdd â'r cleient. Pendronodd am y sesiwn ymgynghori gyda Janice yr wythnos cynt, roedd hi'n reit anghyfforddus am y peth ac wedi bod yn meddwl am beth i'w wneud. Na'th y sesiwn ddim yn mynd hynod o llyfn i ddeud gwir, ac roedd Eluned yn amau os y byddai Janice yn dychwelyd ai peidio? Roedd pethau yn reit chwithig o'r foment gyntaf pan gyfarchodd hi Janice.

Daeth Janice i fewn yr wythnos cynt yn edrych yn reit nerfus (dim byd yn anghywir am hynny). Cyflwynodd Eluned ei hun iddi a'r peth y cyntaf ddwedodd Janice – 'Chi'n dod o'r gogledd....' Doedd Eluned ddim cweit wedi clicio pan ddwedodd hi hynny, ond eglurodd Janice ei bod yn dod o Abertawe ac nad oedd ei Chymraeg gystal â rhywun o'r gogledd. Nododd na ddefnyddiai Gymraeg cywir, ei bod yn siarad Wenglish; 'fyddai ddim yn eich deall/ fyddwch chi ddim yn fy neall i'? Roedd Eluned yn reit gyfarwydd â'r farn yma, ond doedd hi ddim cweit yn deall chwaith – doedd Eluned ddim yn cael trafferthion deall Janice na'r naill ffordd a'r llall.

Aeth y ddwy i fewn i'r stafell gwnsela, a dechreuodd y sesiwn ymgynghori; gofynnodd Eluned i Janice sut oedd hi'n teimlo am gael y sesiwn yn y Gymraeg gan ofyn os oedd ei hacen/dealltwriaeth yn mynd i fod yn rwystr gan fod ei lles hi yn hynod bwysig. Roedd Janice yn wreiddiol wedi gofyn yn benodol am therapydd oedd yn siarad Cymraeg, a nododd Eluned ar y pwynt yma nad oedd ganddyn nhw therapydd arall oedd yn siarad Cymraeg yn y practis. Dechreuodd Janice symud yn ei chadair, gan edrych yn ddigon annifyr. Doedd Janice ddim yn hyderus meddai hi yn siarad Cymraeg os nad oedden nhw o'r un ardal â hi. Roedd Eluned yn reit benderfynol o'i pherswadio y byddai popeth yn iawn ac na fyddai unrhyw broblem yn deall ei gilydd. Ddwedodd Janice fawr ddim ar ôl hynny, dim ond rhoi atebion byr a phwrpasol.
Roedd Eluned yn teimlo yn ddigon annifyr ei hun ar ôl hyn – oedd hi wedi hwffio'r pwynt yn ormodol gan ei bod HI yn meddwl nad oedd problem? Pam na nath hi ddim trafod sut oedd Janice yn ei deimlo am yr acen ayb?
'Helo Eluned' meddai Janice – roedd hi'n ôl....